Adolygiad Effaith Blynyddol Menter ac Entrepreneuriaeth 2025/26

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

1. Cipolwg Cyflym

Cyflwynodd PCYDDS raglen barhaus o gymorth i fentrau, entrepreneuriaeth a busnesau newydd, gan helpu myfyrwyr a graddedigion i ddatblygu sgiliau menter, archwilio hunangyflogaeth a throi syniadau addawol yn fusnesau. Mae cyllid gan Lywodraeth Cymru wedi cefnogi cynnig cysylltiedig o addysg fenter, hyfforddiant ymarferol, cyngor unigol, cystadlaethau, grantiau cychwyn busnes, rhaglenni ymgysylltu â'r diwydiant ac ysbrydoliaeth i gyn-fyfyrwyr.

Mae'r rhaglen yn cyfuno codi ymwybyddiaeth gynnar â chymorth ymarferol, wedi'i deilwra. Daw myfyrwyr ar draws entrepreneuriaeth drwy eu hastudiaethau, gan ei harchwilio drwy weithdai a digwyddiadau, cael arweiniad un-i-un a mynediad at gymorth wrth iddynt gymryd camau tuag at fasnachu. Mae hyn yn creu sawl llwybr i entrepreneuriaeth, p'un a yw myfyriwr eisiau lansio busnes, gweithio'n llawrydd, datblygu menter gymdeithasol neu gymhwyso meddylfryd entrepreneuraidd o fewn cyflogaeth.

Mesur	Swydd 12 mis	Targed	Cynnydd
Nifer y myfyrwyr a gyflwynwyd i entrepreneuriaeth ac arloesi	2,454	2,500	98%
Nifer y myfyrwyr sy'n datblygu gallu entrepreneuraidd	432	250	173%
Nifer y myfyrwyr/graddedigion unigol sy'n cael cymorth cyn dechrau busnes	534	400	134%
Nifer y busnesau a ddechreuwyd gan fyfyrwyr/graddedigion	40	50	80%
Nifer y staff sy'n hyrwyddwyr entrepreneuriaeth	12	18	67%
Nifer y cyn-fyfyrwyr sy'n cymryd rhan weithredol	7	6	117%
Busnesau yn y sector preifat sy'n cymryd rhan	4	3	133%

Dros y cyfnod adrodd 12 mis, cyflwynodd PCYDDS 2,454 o fyfyrwyr i entrepreneuriaeth ac arloesi, cefnogodd 432 o fyfyrwyr i ddatblygu gallu entrepreneuraidd, darparodd gefnogaeth cyn dechrau busnes i 534 o fyfyrwyr a graddedigion unigol, a helpodd i ddechrau 40 o fusnesau gan fyfyrwyr a graddedigion. Gwnaeth pedwar o'r saith prif fesur ragori ar eu targedau, cyrhaeddodd ymwybyddiaeth myfyrwyr 98% o'r targed, a chyrhaeddodd creu busnesau 80% o'r targed. Mae'r rhwydwaith hyrwyddwyr staff yn parhau'n faes pwysig ar gyfer datblygiad pellach.

2. Gwerth buddsoddiad Llywodraeth Cymru

Mae cyllid Llywodraeth Cymru wedi galluogi PCYDDS i ddarparu capasiti penodedig a chymorth ymarferol sy'n helpu myfyrwyr a graddedigion i symud o ddiddordeb ac uchelgais i weithredu gwybodus. Nid yw ei werth wedi'i gyfyngu i nifer y busnesau a grëir. Mae hefyd yn helpu pobl i ddatblygu'r hyder, y wybodaeth, y rhwydweithiau a'r sgiliau trosglwyddadwy sydd eu hangen i adnabod cyfleoedd ac ymateb i heriau economaidd a chymdeithasol.

- Ymgysylltu cynharach: cyflwyno miloedd o fyfyrwyr i entrepreneuriaeth ac arloesi, gan eu helpu i gydnabod bod menter yn berthnasol ar draws pynciau a llwybrau gyrfa.
- Gallu ymarferol: rhoi cyfleoedd i fyfyrwyr ddatblygu creadigrwydd, datrys problemau, cyfathrebu, ymwybyddiaeth fasnachol, gwytnwch a hyder.
- Llwybr i hunangyflogaeth: darparu hyfforddiant hygyrch, cyngor unigol a chymorth i ddechrau busnesau i helpu myfyrwyr a graddedigion i roi syniadau ar brawf a chymryd eu camau cyntaf.
- Lleihau rhwystrau cynnar: darparu grantiau cychwyn busnes hyd at £500 i helpu myfyrwyr cymwys a graddedigion diweddar i dalu costau cychwynnol sy'n gysylltiedig â lansio neu ddatblygu menter.

- Cysylltiadau cryfach: cysylltu myfyrwyr a chyn-fyfyrwyr â chyflogwyr, entrepreneuriaid, cyn-fyfyrwyr sy'n fodelau rôl, sefydliadau sy'n darparu cymorth i fusnesau a rhwydweithiau menter ehangach yng Nghymru.
- Capasiti sefydliadol: meithrin ymgysylltiad staff, datblygu adnoddau a chreu sylfaen gryfach ar gyfer gwreiddio menter o fewn addysgu a phrofiad y myfyrwyr.

Felly, mae'r buddsoddiad yn cefnogi canlyniadau di-oed a manteision hirdymor: graddedigion mwy mentrus, gweithgarwch busnes newydd, cysylltiadau cryfach rhwng y Brifysgol a'r gymuned fusnes, a mwy o gapasiti o fewn y sefydliad i gynnal gweithgarwch menter.

3. Sefydlu'r sylfeini

Sefydlodd chwe mis cyntaf y cyfnod adrodd sylfeini pwysig ar gyfer rhaglen fenter ehangach y Brifysgol. Roedd y gweithgarwch yn canolbwyntio ar gryfhau ymgysylltiad academaidd, codi ymwybyddiaeth o entrepreneuriaeth ar draws y corff myfyrwyr, cysylltu myfyrwyr â chyn-fyfyrwyr a chyflogwyr, a darparu cymorth ymarferol i bobl sy'n ystyried hunangyflogaeth neu ddechrau busnes.

Ymgorffori menter ar draws y Brifysgol

Gweithiodd PCYDDS yn agosach gyda chydweithwyr academaidd i ddatblygu dull mwy cyson o gyflwyno menter. Cyfrannodd y Tîm Menter at yr adolygiad cwricwlwm ledled y Brifysgol, gan weithio gydag arweinwyr academaidd i fapio sgiliau menter a chyflogadwyedd a nodi cyfleoedd ar gyfer dysgu entrepreneuraidd o fewn rhaglenni presennol. Roedd adnoddau ar-lein hefyd yn cael eu datblygu i helpu Hyrwyddwyr Academaidd Menter i gyflwyno themâu menter o fewn addysgu.

Atgyfnerthwyd ymrwymiad y Brifysgol i ddatblygu addysg fenter pan dderbyniodd Rebecca Jones Gymrodoriaeth Addysgwyr Menter y DU. Mae'r Gymrodoriaeth yn cydnabod ei chyfraniad i addysg fenter a'i gwaith yn cefnogi myfyrwyr a chydweithwyr i ddatblygu sgiliau a chyfleoedd entrepreneuraidd. Yn ystod y cyfnod, daeth Ffion Cumberpatch hefyd yn Hyrwyddwr Academaidd Menter, gan ychwanegu at y rhwydwaith o eiriolwyr staff.

Codi ymwybyddiaeth a datblygu gallu entrepreneuraidd

Cyflwynodd y rhaglen 2,454 o fyfyrwyr i entrepreneuriaeth ac arloesi yn ystod y flwyddyn. Roedd hyn yn cynnwys elfennau dysgu menter ac arloesi o fewn modylau academaidd, digwyddiadau croeso a gyrfaoedd, sgyrsiau gyrfaoedd dan arweiniad cyn-fyfyrwyr a gweithgareddau yn ystod Wythnos Entrepreneuriaeth Fyd-eang. Mewn sesiwn gyngor yn y Matrics Arloesi ar ddechrau busnes, a gyflwynwyd gydag Amanda Bordesa o Syniadau Mawr Cymru ar 20 Tachwedd 2025, rhoddwyd cyfle i fyfyrwyr drafod uchelgeisiau busnes ac archwilio'r camau nesaf ymarferol.

Ym mis Chwefror a Mawrth 2026 denodd cwrs ar-lein pedair wythnos ar Ddechrau Busnes a Gyrfa Lawrydd 95 o fyfyrwyr a chyn-fyfyrwyr. Roedd yn ymdrin â datblygu cynnig, cynnyrch a gwasanaethau i gwsmeriaid, prisio, refeniw, marchnata, costau, strwythurau cyfreithiol, treth, gweinyddu busnes a thwf cynaliadwy. Gwnaeth y rhaglen helpu cyfranogwyr i ddeall gofynion ymarferol hunangyflogaeth a pherchnogaeth busnes.

Cyn-fyfyrwyr, cyflogwyr a'r ecosystem fenter ehangach yng Nghymru

Fe wnaeth ymgysylltu â chyn-fyfyrwyr helpu myfyrwyr i weld yr amrywiaeth o lwybrau gyrfa a oedd ar gael y tu hwnt i raddio. Dychwelodd y darlunydd a'r awdur Karl James Mountford i siarad â myfyrwyr darlunio am ei arfer proffesiynol a'i yrfa lawrydd. Rhannodd y perfformwyr llawrydd Glain Rhys a Levi Johnson fewnwelediadau â myfyrwyr Caerdydd, tra bu'r darlunydd Rebecca Cowley (Beccotti) yn trafod adeiladu busnes creadigol a datblygu prosiectau cydweithredol gyda brandiau, cwmnïau a chyhoeddwyr.

Rhoddodd interniaeth myfyrwyr gyda Bubbles, Bounce & Sensory Play, busnes a sefydlwyd gan Sandra Richards-Davies, cyn-fyfyriwr o PCYDDS, brofiad ymarferol i fyfyriwr mewn marchnata digidol a chreu cynnwys. Yn ystod y

lleoliad gwaith hwn cefnogwyd y busnes gyda'i waith marchnata ac ymgysylltu â'r gymuned tra'n helpu'r myfyriwr i adeiladu portffolio, gweithio gyda chleient go iawn ac archwilio gwaith llawrydd fel gyrfa bosibl.

Gwnaeth PCYDDS (trwy Dylan Williams-Evans) hefyd gyd-drefnu a noddi Arddangosfa Cychwyn Busnes Expo Abertawe yn Arena Abertawe ar 12 Mawrth 2026, gan gyfrannu cymorth ariannol, arbenigedd staff, gwasanaeth hyrwyddo ac adnoddau ar gyfer y digwyddiad. Helpodd cyfranogiad y Brifysgol i gysylltu busnesau newydd, darpar entrepreneuriaid a sefydliadau cymorth ac atgyfnerthu ei rôl yn ecosystem fusnes y rhanbarth. Mewn trafodaethau â Syniadau Mawr Cymru a Busnes Cymru yn ystod mis Mawrth trafodwyd cydweithio agosach, llwybrau atgyfeirio a chyflwyno ar y cyd.

Cymerodd y Brifysgol ran mewn Hacathon dros Gymru gyfan ar 4 Mawrth 2026, yn gysylltiedig â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Bu'r myfyrwyr yn gweithio mewn timau ar heriau'r byd go iawn, gyda chefnogaeth mentoriaid o'r Brifysgol, cyn-fyfyrwyr a phartneriaid rhanbarthol. Trwy'r gweithgaredd datblygwyd sgiliau cydweithio, creadigrwydd, datrys problemau a'r gallu i droi syniadau'n ymatebion ymarferol.

Cafodd myfyrwyr hefyd gyfleoedd gwerthfawr i gymhwyso eu dysgu drwy gyflwyno digwyddiadau byw. Helpodd chwe myfyriwr Twristiaeth a Digwyddiadau i drefnu cynhadledd ITT Future You Wales 2026, gan weithio gyda PCYDDS, partneriaid mewn diwydiant, cyn-fyfyrwyr a noddwyr. Erbyn adeg yr adroddiad, roedd mwy na 60 o stondinau masnach a dros 500 o gynrychiolwyr cofrestredig wedi'u sicrhau, gan ddangos gwerth dysgu cymhwysol a gweithgarwch menter dan arweiniad myfyrwyr.

4. Datblygu meddylfryd entrepreneuraidd

Un o brif amcanion y rhaglen yw gwneud entrepreneuriaeth yn weladwy ac yn berthnasol i fyfyrwyr o bob disgyblaeth. Cyflwynir entrepreneuraeth nid yn unig fel mater o ddechrau cwmni, ond fel y gallu i adnabod cyfleoedd, cynhyrchu syniadau, datrys problemau, creu gwerth a chymryd y cam cyntaf. Gall y galluoedd hyn gefnogi hunangyflogaeth a chreu busnesau, ond maent hefyd yn werthfawr mewn sefydliadau presennol ac ar draws y farchnad lafur ehangach.

Ysgogwyr newid: Creadigrwydd a Chreu Gwerth

Yn ystod blwyddyn academaidd 2025/26, cymerodd 369 o fyfyrwyr ran yn y modwl Ysgogwyr Newid. Mae'r modwl yn annog myfyrwyr i adnabod heriau, datblygu atebion creadigol ac ystyried sut y gall eu syniadau greu effaith gymdeithasol gadarnhaol. Mae'n datblygu creadigrwydd, arloesedd, menter, gwaith tîm, arweinyddiaeth, sgiliau datrys problemau a hyder proffesiynol.



Gwnaeth Cystadleuaeth Arloesi Ysgogwyr Newid, a gynhaliwyd ym mis Medi 2026, ddathlu gwaith 50 o fyfyrwyr cyfrifiadura. Cyflwynodd myfyrwyr brosiectau a gynlluniwyd i fynd i'r afael ag anghenion gwirioneddol drwy dechnoleg, gyda phartneriaid mewn diwydiant yn cyfrannu fel beirniaid, mentoriaid a noddwyr.

- Enillodd Tonio George y categori Arloesi Rhwydweithio a Seiberddiogelwch a gwobr o £750 am CyberGuard Pro, offeryn diogelwch a dadansoddi rhwydwaith. Yn ogystal derbyniodd y prosiect Wobr Arloesi Proffesiynol Shipmax.
- Enillodd Edward Lloyd Wobr Arloesi Ysgogwyr Newid a £750 am Offeryn Efelychu Gweithlu'r Dyfodol ar gyfer y GIG a gynlluniwyd i gefnogi cynllunio'r gweithlu yn fwy hirdymor.
- Derbyniodd Olivia Collins y Wobr Arloesedd Datblygu a £500 am Wear the Weather / WearWise AI.
- Derbyniodd Daniel Leone Wobr Arloesi Effaith Gymdeithasol a £250 am The Human Firewall, prosiect wedi'i gemeiddio yn ymwneud ag ymwybyddiaeth o seiberddiogelwch.
- Derbyniodd Molly Thomas Wobr Arloesi Ysgogwyr Newid a £500 am system desg wasanaeth TG sy'n seiliedig ar gronfa wybodaeth ac wedi'i phweru gan AI.
- Derbyniodd Tia Willock £250 a thrydydd safle am Trackogram, cymhwysiad iechyd a llesiant symudol.

Cefnogwyd y gystadleuaeth gan Gymrodoriaeth Peirianwyr a Gwyddonwyr mewn Busnes a Shipmax, ochr yn ochr â gweithwyr proffesiynol o Hoowla, Fujitsu a PCYDDS. Rhoddodd eu cyfraniad fynediad i fyfyrwyr at arbenigedd allanol, adborth adeiladol a mewnwelediad i botensial masnachol a phroffesiynol eu gwaith.

5. Helpu myfyrwyr a graddedigion i gymryd y cam nesaf

Cwrs Dechrau Busnes a Gyrfa Lawrydd

Yn ystod y flwyddyn cynhaliwyd tri Chwrs Busnes a Gyrfa Lawrydd a helpodd y cyfranogwyr i asesu a yw hunangyflogaeth neu berchnogaeth busnes yn addas iddynt a datblygu'r wybodaeth ymarferol sydd ei hangen i gyrraedd eu cwsmeriaid cyntaf.

Roedd y sesiynau'n ymdrin â datblygu cynnig, cynnyrch a gwasanaethau i gwsmeriaid, prisio, ffrydiau refeniw, marchnata, costau, strwythurau cyfreithiol, treth, gweinyddu busnes a thwf cynaliadwy. Trefnwyd cwrs pellach ar gyfer Tachwedd 2026, gan ehangu mynediad at y cymorth ymarferol hwn.

Arweiniad Un-i-un a Sesiynau Galw Heibio yn ymwneud â Menter

Mae cymorth i unigolion yn parhau'n rhan allweddol o'r cynnig, gan gydnabod bod pob syniad busnes a thaith pob myfyriwr yn wahanol. Drwy gydol y flwyddyn, cynhaliodd y Tîm Menter 176 o gyfarfodydd unigol un-i-un gyda myfyrwyr a chyn-fyfyrwyr. Mynychodd 31 o bobl eraill sesiynau galw heibio yn ymwneud â menter dros y cyfnod.

Helpodd y sgyrsiau hyn y cyfranogwyr i archwilio a dilysu syniadau, nodi'r camau nesaf, deall cyllid a chymorth sydd ar gael, ac ystyried atgyfeiriadau at sefydliadau a rhwydweithiau perthnasol.



Grant Entrepreneuriaeth PCYDDS i Fusnesau Newydd

Mae Grant PCYDDS i Fusnesau Newydd yn darparu hyd at £500 o gymorth ariannol i fyfyrwyr cymwys a graddedigion diweddar i helpu i oresgyn costau cychwynnol sy'n gysylltiedig â hunangyflogaeth, gwaith llawrydd neu ddechrau busnes. Mae'r grant yn fwyaf effeithiol pan gaiff ei gyfuno â chyngor a chynllunio busnes: gall helpu i droi syniad yn gynnyrch neu wasanaeth y gellir ei brofi, cefnogi gweithgarwch masnachu cynnar a rhoi'r hyder i entrepreneur uchelgeisiol gymryd y cam ymarferol cyntaf.

Derbyniodd 20 o fyfyrwyr/cyn-fyfyrwyr grant yn 2025-2026. Mae'r rhaglen wedi'i chynllunio i ategu arweiniad busnes a chefnogaeth ehangach, yn hytrach na chymryd lle hynny, gan helpu derbynwyr i ddefnyddio'r cyllid yn wybodus ac adeiladu tuag at weithgarwch cynaliadwy.

6. Dathlu menter myfyrwyr a chyn-fyfyrwyr

Cystadleuaeth Syniadau Busnes Cymru Gyfan

Denodd Cystadleuaeth Syniadau Busnes Cymru Gyfan 2026 21 o geisiadau gan fyfyrwyr ar draws amrywiaeth o ddisgyblaethau. Cyflwynodd y cystadleuwyr boster o syniadau busnes a Chynfas Model Busnes, gan roi ffordd strwythuredig iddynt esbonio eu datganiad gwerth, eu marchnad darged a'r potensial masnachol. Dathlwyd y rhai a gyrhaeddodd y rownd derfynol mewn seremoni wobrwyo ar 29 Ebrill.

Gwnaeth y gystadleuaeth gydnabod myfyrwyr presennol a chyn-fyfyrwyr, gan ddathlu ystod amrywiol o syniadau â gwerth masnachol, creadigol a chymdeithasol.



Categori	Dyfarniad	Enw	Syniad busnes
Cyn-fyfyrwyr	1af	Tomos Hopkins	Aurum by Florence – gemwaith wedi'i bersonoli a darnau aur casgladwy 22ct.
Cyn-fyfyrwyr	2il	Sandra Richards-Davies	Bubbles, Bounce & Sensory Play – darpariaeth chwarae synhwyraidd cynhwysol i blant.
Cyn-fyfyrwyr	3ydd	James Peaple	NeuroVision Wales CIC – Cymorth i bobl niwrowahanol a sefydliadau mwy cynhwysol.
Myfyrwyr	1af	Stuart Edwards	Coach Wellbeing Initiative – addysg a chymorth llesiant i hyfforddwyr rygbi'r undeb.
Myfyrwyr	2il	Louise Hunt	Altara – Deallusrwydd iechyd wedi'i bweru gan AI a gynlluniwyd ar gyfer menywod.
Myfyrwyr	3ydd	Lyndsey Smith	ChildLink Cymru – platfform digidol diogel sy'n mynegi

			lleisiau a phrofiadau plant.

Mae'r gystadleuaeth wedi helpu cyfranogwyr i gael adborth, gweledegdd a hyder. Ers hynny mae pedwar o'r enillwyr gwobrau wedi dechrau busnesau, tra bod dau yn archwilio cyfleoedd rhannu desgiau poeth yn y Matrics Arloesi. Mae'r gystadleuaeth yn dangos sut y gall gweithgaredd cymharol hygyrch greu llwybr o egin syniad i gymorth pellach a datblygu busnes.

Menter ôl-raddedig: Sophie Drew Designs



Mae Sophie Drew, sydd wedi graddio o Goleg Celf Abertawe, wedi ennill cydnabyddiaeth genedlaethol am ei gwaith dylunio tecstilau a phatrymau arwyneb. Derbyniodd ei chasgliad, Glowgrove: The Understory, wobr Laura Ashley Loves yn arddangosfa'r New Designers ac arweiniodd at gael ei dewis yn un o 25 a gyrhaeddodd y rownd derfynol ar gyfer sbardun gyrfa ac arddangosfa TEX+ 26 dan arweiniad y diwydiant yng Ngholeg y Celfyddydau Chelsea. Mae Sophie bellach yn datblygu ei busnes llawrydd, Sophie Drew Designs, gyda'r uchelgais o greu casgliadau ar gyfer addurno mewnol, ffasiwn a nwyddau cartref a dilyn cyfleoedd trwyddedu.

Mae taith Sophie yn dangos sut y gall addysg greadigol, anogaeth a mynediad at rwydweithiau proffesiynol helpu graddedigion i feithrin yr hyder a'r cymwysterau i fynd ar ôl hunangyflogaeth.

Menter myfyriwr: The Gaffer



Datblygodd y myfyriwr cyfrifiadura Sanwar Ahmed gêm reoli pêl-droed retro, The Gaffer, o fod yn ddiddordeb personol i fod yn fenter fasnachol. Gyda chefnogaeth darlithwyr a Thîm Menter PCYDDS, datblygodd y cysyniad a sefydlu Pitchwork Studios. Trefnwyd i'r gêm gael ei rhyddhau ar Steam ar 30 Hydref 2026.

Dengys stori Sanwar werth cyfuno dysg academaidd, sgiliau technegol, anogaeth a chyngor menter ymarferol. Dengys hefyd y gall cyfleoedd entrepreneuraidd ddeillio o ddiddordebau a phrofiadau myfyriwr ei hun.

Cyn-fyfyrwyr fel modelau rôl a phartneriaid busnes

Parhaodd cyn-fyfyrwyr i gyfrannu at brofiad y myfyrwyr drwy sgyrsiau, mentora a chyfleoedd ymarferol. Dychwelodd y darlunydd a'r awdur Karl James Mountford i siarad â myfyrwyr darlunio am ei yrfa a'i arfer llawrydd. Rhannodd y darlunydd Rebecca Cowley (Beccotti) sut y datblygodd fusnes creadigol ac adeiladu prosiectau cydweithredol gyda brandiau, cwmnïau a chyhoeddwyr. Cyfrannodd y perfformwyr llawrydd Glain Rhys a Levi Johnson hefyd at sgyrsiau gyda myfyrwyr am yrfaoedd.



Rhoddodd interniaeth gyda Bubbles, Bounce & Sensory Play, busnes a sefydlwyd gan Sandra Richards-Davies, cyn-fyfyriwr o PCYDDS, brofiad ymarferol i fyfyriwr mewn marchnata digidol a chreu cynnwys. Gwnaeth y lleoliad gwaith gysylltu talent myfyriwr â busnes dan arweiniad cyn-fyfyriwr, gan fod o fudd i'r myfyriwr a'r busnes wrth ganiatáu i'r myfyriwr brofi sgiliau mewn lleoliad masnachol go iawn.

7. Cysylltu'r Brifysgol â busnes a'r ecosystem ehangach

Hwb Busnes a Sgyrsiau'r Stryd

Mae'r Hwb Busnes yn darparu llwyfan i arweinwyr busnes, cyn-fyfyrwyr, myfyrwyr a staff academaidd gyfnewid gwybodaeth ymarferol. Mae ei sgyrsiau byr â ffocws a'i fformat trafodaeth agored yn helpu cyfranogwyr i archwilio heriau busnes cyfredol, adeiladu rhwydweithiau a rhannu mewnwelediad ymarferol. Roedd sesiwn ym mis Mai yn cynnwys Canolfan Fenter yr Academi Frenhinol Peirianneg, gan dynnu sylw at gyfleoedd i fusnesau gael mynediad at gyllid, rhaglenni sbarduno a chymrodoriaethau ymchwil.

Sgyrsiau'r Stryd: Lansiwyd Ymchwil, Syniadau ac Arloesi yn y Matrics Arloesi ar 29 Ebrill. Bu tri siaradwr yn archwilio cydweithio yn y sector sgrîn, deunyddiau cylchol a thechnolegau uwch, a goblygiadau profiadau digidol sy'n cael eu galluogi gan AI datblygol. Mynychodd wyth myfyriwr, ynghyd â staff, gweithwyr diwydiant ac aelodau o'r gymuned ehangach. Mae'r fformat anffurfiol yn creu cyfleoedd i gysylltu ymchwil, heriau'r diwydiant a syniadau newydd.

Ymgysylltu â diwydiant a dysgu y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth

Cafodd 50 o fyfyrwyr cyfrifiadura eu cydnabod drwy ymweliad addysgol â phencadlys Google yn Llundain yn dilyn cyflawni eu prosiect. Clywodd y myfyrwyr gan un o Benseiri Google Cloud a Dafydd Moore, Prif Swyddog Gwybodaeth yn Superdry, sy'n gyn-fyfyriwr o PCYDDS, am dechnoleg, deallusrwydd artiffisial, datblygu gyrfa a phwysigrwydd cyfathrebu, cydweithio, y gallu i addasu, a dysgu parhaus.



Parhaodd y Brifysgol hefyd i ymgysylltu â busnesau a chyn-fyfyrwyr i gefnogi entrepreneuriaeth. Erbyn diwedd Medi, sicrhawyd gwasanaeth pedwar busnes o'r sector preifat a saith cyn-fyfyriwr, ac mae'r perthnasoedd hyn yn cyfrannu arbenigedd, mentora, nawdd, rhwydweithiau a chyfleoedd i fyfyrwyr.

8. Adeiladu capasiti hirdymor y Brifysgol

Mae'r cyllid yn cefnogi nid yn unig weithgarwch uniongyrchol myfyrwyr ond hefyd yn datblygu dull sefydliadol cryfach o ymdrin â menter. Mae PCYDDS yn gweithio i feithrin hyder staff, adnabod arbenigedd presennol a chreu ffyrdd i adrannau academaidd gymryd rhan fwy gweithredol mewn dysgu entrepreneuraidd.

Dyluniwyd Arolwg Menter Academaidd yn ystod y cyfnod, gyda'r lansiad wedi'i gynllunio ar gyfer Hydref 2026. Bydd yn nodi gweithgarwch menter presennol, hyder ac arbenigedd staff, rhwystrau rhag gyflawni, anghenion myfyrwyr a'r adnoddau a fyddai'n helpu timau academaidd. Bydd y canfyddiadau'n llywio datblygiad staff wedi'i dargedu, adnoddau perthnasol i'r ddisgyblaeth, a datblygu rhwydwaith hyrwyddwyr entrepreneuriaeth academaidd ymhlith staff.

Erbyn diwedd mis Medi, nodwyd bod 12 aelod o staff yn hyrwyddo entrepreneuriaeth yn eu hysgol neu eu hadran academaidd. Mae tyfu'r rhwydwaith hwn yn parhau'n flaenoriaeth, ochr yn ochr ag ymgorffori menter mewn addysgu, datblygu'r cwricwlwm a phrofiad ehangach y myfyrwyr.

Parhaodd y Brifysgol hefyd i gryfhau cysylltiadau â Busnes Cymru a Syniadau Mawr Cymru, gyda thrafodaethau'n canolbwyntio ar gydweithio, llwybrau atgyfeirio a chyflwyno ar y cyd. Mae cynnal llwybrau clir at gymorth allanol arbenigol yn bwysig er mwyn sicrhau y gall myfyrwyr a graddedigion barhau i gael mynediad at gyngor a gwasanaethau y tu hwnt i gyfnod cyllid grant sefydliadol. Defnyddiwyd Modelau Rôl Syniadau Mawr Cymru i gyflwyno sesiynau addysgiadol i'n dysgwyr.

9. I gloi

Mae 2025/26 yn dangos gwerth buddsoddiad parhaus mewn entrepreneuriaeth myfyrwyr a graddedigion. Mae PCYDDS wedi cyflwyno 2,454 o fyfyrwyr i entrepreneuriaeth ac arloesi, wedi cefnogi 432 o fyfyrwyr i ddatblygu gallu entrepreneuraidd, wedi darparu cefnogaeth cyn dechrau busnes i 534 o unigolion ac wedi helpu i ddechrau 40 o fusnesau gan fyfyrwyr a graddedigion.

Y tu ôl i'r ffigurau hyn mae pobl yn cymryd camau ystyrlon, myfyrwyr yn datblygu atebion i heriau'r byd go iawn, graddedigion yn ffurfio mentrau creadigol sy'n canolbwyntio ar y gymuned, a darpar weithwyr llawrydd yn ennill y wybodaeth a'r hyder i ddilyn gyrfaoedd annibynnol. Mae cystadlaethau, grantiau, hyfforddiant, cyngor unigol, ymgysylltu â chyn-fyfyrwyr a phartneriaethau â chyflogwyr yn cyfuno i wneud y camau hynny'n fwy cyflawnadwy.

Mae cyllid Llywodraeth Cymru wedi bod yn allweddol wrth alluogi'r gefnogaeth gydgysylltiedig hon. Mae wedi helpu PCYDDS i greu cyfleoedd, lleihau rhwystrau, cysylltu talent ag arbenigedd a chryfhau'r sylfeini ar gyfer cymuned brifysgol fwy mentrus.

Bydd y cam nesaf yn adeiladu ar y cynnydd hwn, gyda ffocws parhaus ar greu busnesau, capasiti staff a phartneriaethau cynaliadwy sy'n cefnogi entrepreneuriaeth yng Nghymru.

Mae PCYDDS yn parhau i fod yn ymrwymedig i gefnogi entrepreneuriaeth a dysgu entrepreneuraidd fel elfennau sy’n gwneud cyfraniad pwysig at gyflogadwyedd myfyrwyr, cyfleoedd i raddedigion a datblygiad economaidd rhanbarthol. Mae rhaglen Llywodraeth Cymru wedi chwarae rhan werthfawr wrth gryfhau ymgysylltu â menter, datblygu arbenigedd sefydliadol a darparu cyfleoedd i fyfyrwyr a graddedigion archwilio meddwl entrepreneuraidd, hunangyflogaeth a chreu busnesau.

Gan adeiladu ar hyn, bydd y Brifysgol yn ceisio cynnal manteision y rhaglen drwy ei darpariaeth cymorth menter bresennol, ochr yn ochr â chydweithredu agosach rhwng cyfadrannau academaidd, Gwasanaethau Myfyrwyr/Cyflogadwyedd ac Ymgysylltu, a Gwasanaethau Ymchwil ac Arloesi (ERIS).

Mae gan PCYDDS Reolwr Menter a Busnesau Cychwynnol ymroddedig, sy'n darparu arweiniad a chymorth wedi'i dargedu i fyfyrwyr a graddedigion sy'n ystyried hunangyflogaeth, gwaith llawrydd a mentrau busnes newydd. Mae'r Brifysgol yn bwriadu cynnal y ddarpariaeth graidd hon, gan gynnwys atgyfeirio fel y bo'n briodol at bartneriaid allanol, tra'n addasu graddfa a lefel cyflawni gweithgareddau i adlewyrchu'r adnoddau sydd ar gael.

Bydd y Brifysgol hefyd yn ceisio cryfhau'r cysylltiadau â'i Swyddfa Cyn-fyfyrwyr i sicrhau bod graddedigion yn parhau i fod yn ymwybodol o gymorth menter perthnasol ac yn gallu cael mynediad ato y tu hwnt i'w hastudiaethau. Mae'r sianeli cyfathrebu presennol, gan gynnwys gwybodaeth adeg graddio, cylchlythyrau i gyn-fyfyrwyr a gweithgareddau ymgysylltu eraill â graddedigion, yn darparu cyfleoedd i hyrwyddo adnoddau menter, arweiniad arbenigol a rhwydweithiau cymorth allanol.

Mae strategaeth ddiwygiedig y Brifysgol ynghylch Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru hefyd yn cydnabod menter ac entrepreneuriaeth fel elfennau pwysig o'i huchelgeisiau ehangach o ran cyfnewid gwybodaeth, arloesi a datblygu graddedigion. Yn amodol ar flaenoriaethau sefydliadol ac argaeledd adnoddau, mae hyn yn darparu fframwaith strategol ar gyfer datblygu llwybrau mwy cysylltiedig rhwng dysgu entrepreneuraidd, cymorth ymarferol i ddechrau busnesau a chyfleoedd arloesi ehangach.

Bydd diwedd cyllid Llywodraeth Cymru, ynghyd â phwysau ariannol ehangach ar draws y sector addysg uwch, yn effeithio'n anochel ar raddfa ac ehangder y gweithgareddau y gellir eu darparu. Fodd bynnag, mae'r Brifysgol yn parhau i fod yn ymrwymedig i gadw menter yn elfen bwysig o brofiad myfyrwyr a graddedigion, gan flaenoriaethu cymorth wedi'i dargedu a gwneud mwy o ddefnydd o adnoddau presennol y sefydliad, partneriaethau a chyfleoedd cydweithio.

Felly, mae PCYDDS yn adolygu ei darpariaeth fenter bresennol, ei chyfrifoldebau sefydliadol a'i chyfleoedd ar gyfer cydweithio er mwyn penderfynu ar y ffordd orau o gynnal y momentwm a grëwyd drwy'r rhaglen. Ein bwriad yw adeiladu ar waddol y rhaglen drwy gryfhau'r cysylltiadau rhwng y ddarpariaeth bresennol, gwella mynediad at adnoddau perthnasol a chyfarwyddyd arbenigol, a chefnogi integreiddio dysgu entrepreneuraidd a chyfleoedd menter yn fwy cydlynol o fewn profiad ehangach myfyrwyr a graddedigion.